OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1273

# Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008

## RHAN 6

BENTHYCIADAU AT GOSTAU BYW

**Uchafswm benthyciadau i fyfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd sydd â hawlogaeth lawn**

**40.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd sydd â hawlogaeth lawn (heblaw myfyriwr math 1 neu fath 2 ar gwrs hyfforddi athrawon, y mae ei gyfraniad yn uwch na dim).

(2) Yn ddarostyngedig i reoliadau 43 i 48, mae uchafswm y benthyciad at gostau byw y mae gan fyfyriwr y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo hawl i'w gael mewn perthynas â blwyddyn academaidd (heblaw blwyddyn derfynol cwrs nad yw'n gwrs dwys) yn hafal i

$$(X-Y)$$

lle—

**X** —

(i) i fyfyriwr yng nghategori 1, yw £3,580;

(ii) i fyfyriwr yng nghategori 2, yw £6,480;

(iii) i fyfyriwr yng nghategori 3, yw £5,515;

(iv) i fyfyriwr yng nghategori 4, yw £5,515;

(v) i fyfyriwr yng nghategori 5, yw £4,625;

**Y** yw swm y grant cynhaliaeth.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliadau 43 i 48, mae uchafswm y benthyciad at gostau byw y mae gan fyfyriwr y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo hawl i'w gael mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n flwyddyn derfynol cwrs nad yw'n gwrs dwys yn hafal i

$$(X-Y)$$

lle—

**X** —

(i) i fyfyriwr yng nghategori 1, yw £3,240;

(ii) i fyfyriwr yng nghategori 2, yw £5,900;

(iii) i fyfyriwr yng nghategori 3, yw £4,795;

(iv) i fyfyriwr yng nghategori 4, yw £4,795;

(v) i fyfyriwr yng nghategori 5, yw £4,795;

**Y** yw swm y grant cynhaliaeth.

(4) Yn y rheoliad hwn, "swm y grant cynhaliaeth" ("*the maintenance grant amount*") yw'r canlynol—

(a) os oes gan y myfyriwr hawl o dan reoliad 36 i gael swm o grant cynhaliaeth nad yw'n fwy na £1,255, swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy;

(b) os oes gan y myfyriwr hawl o dan reoliad 36 i gael swm o grant cynhaliaeth sy'n fwy na £1,255; ac

(c) os nad oes grant cynhaliaeth yn daladwy, dim.